ESTEDDFOTA
Cylchlythyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
Rhif 77 | Hybu eisteddfodau, cynnal cymunedau | Awst 2026

# Y GARREG LAS YN GALW

**Anodd credu bod blwyddyn wedi pasio'n barod a'n bod ni yma yn barod am Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las. Hawdd fyddai credu bod y misoedd yn gwibio heibio'n llawer cyflymach nag yr oedden nhw! Yn ôl yr arfer bydd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru ar y maes yn edrych ymlaen at groesawu 'steddfotwyr Cymru.**




Yn ogystal ag amserlen o weithgareddau ar gyfer yr wythnos, bydd gennym raglenni eisteddfodau, gwybodaeth, newyddion, lluniau a chyfle i brynu raffl .

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ar y stondin am 1:30pm Dydd Mawrth 4 Awst, a byddwn yn croesawu dau siaradwr i sôn ychydig am ddwy o eisteddfodau newydd llwyddiannus 2026. Ar yr un diwrnod bydd dros ugain o unigolion o Orllewin/De Cymru yn cael eu cydnabod am eu gwasanaeth i'w heisteddfodau lleol, a hynny mewn seremoni ym mhabell Llywodraeth Cymru am 3:30pm. Croeso i bawb.

Bydd yr wythnos yn benllanw'r cystadlaethau sy'n rhedeg ar y cyd yn flynyddol rhwng y Gymdeithas a'r Eisteddfod Genedlaethol - Cystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru, Mewn Cymeriad a Thlws yr Ifanc. Gan mai eleni yw blwyddyn olaf cystadleuaeth Mewn Cymeriad, byddwn yn cael cyfle i fwynhau lansiad y gystadleuaeth newydd, yr Ensemble Sioe Gerdd, mewn digwyddiad cyffrous ar y prynhawn Mercher - manylion llawn ar y stondin.

Edrychwn ymlaen at sesiynau 'Llwyfan Lleol' fydd yn rhoi cyfle i berfformwyr, sydd wedi'u dewis gan eu heisteddfodau lleol, i ddangos eu doniau.

Yn un o'r sgyrsiau byddwn yn eu cynnal, cawn gwmni criw Eisteddfod Nefyn fydd yn rhannu'u profiad o 'Sefydlu 'Steddfod Newydd' gyda'r gobaith o ysbrydoli cymunedau eraill i fentro arni yn y flwyddyn sydd i ddod.

Byddwn yn croesawu Alaw Griffiths atom i gynnal gweithdy Clocsio/Dawns Werin, a bydd cyfle i gyfarfod ag enillydd Tlws yr Ifanc a chlywed ychydig o'i hanes.

I'r rheiny sydd yn ymddiddori mewn blogiau byw, beth am ymuno mewn gweithdy fydd dan arweiniad 'Golwg' er mwyn dysgu mwy am y cyfrwng.

Bydd Raffl 2026 yn cael eu thynnu ar Ddydd Sadwrn olaf yr Eisteddfod, felly os oes gennych fonion angen eu dychwelyd, cofiwch ddod â nhw i'r stondin cyn hynny.

Felly galwch heibio rhyw ben - mae'n argoeli i fod yn wythnos brysur!

**Rhif stondin: 109**

**AELODAETH FLYNYDDOL I EISTEDDFODAU LLEOL £20** *Manylion a ffurflen ymaelodi ar www.steddfota.cymru*

# CYSTADLAETHAU 2026-2027

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

EISTEDDFOD

**Manylion ac Amodau ar www.steddfota.cymru**

Dyma'r 3 cystadleuaeth fydd yn rhedeg ar y cyd gyda'r Eisteddfod Genedlaethol am y flwyddyn sydd i ddod. Edrychwch allan amdanynt yn rhaglen eich eisteddfodau lleol.










**Edrychwn ymlaen yn fawr at Gystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026. Rydym yn rhagweld chwip o gystadleuaeth am 2:40pm Dydd Sadwrn 1 Awst.**

**Bydd enillydd Tlws yr Ifanc 2025-2026 yn cael ei ddatgelu am 2pm, Dydd Llun 3 Awst, ar lwyfan y Babell Lên. Edrychwn ymlaen yn fawr at longyfarch yr unigolyn llwyddiannus.**

**Dydd Mercher 5 Awst, am 3:05pm bydd cystadleuaeth 'Mewn Cymeriad' yn cael ei chynnal am y tro olaf, a bydd cystadleuaeth newydd yr 'Ensemble Sioe Gerdd' yn cael ei lansio'n swyddogol. Dewch draw i stondin Cymdeithas Eisteddfodau Cymru i weld y manylion.**

# O SWEDEN I DDYFFRYN CONWY



**Enillwyd cystadleuaeth i siaradwyr newydd, yn Eisteddfod Dyffryn Conwy Llanrwst, ar ddiwedd Mehefin, gan ddyn sy'n byw yn Sweden.**

Dim ond ers mis Medi mae Rik Rwmefin, o Malmo, Sweden, wedi bod yn dysgu Cymraeg, a hynny drwy gyfrwng gwersi ar-lein.

Delyth Roberts yw ei diwtor Cymraeg, ac fe osododd her i'w chriw i gystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Conwy.

Dywedodd Nia Clwyd Owen, cadeirydd yr Eisteddfod bod yn "rhaid i ni wneud yn siŵr bo' ni'n creu mwy o gyfleoedd i siaradwyr newydd allu cyfrannu o fewn y diwylliant Cymraeg".

Felly fe benderfynodd pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy ffurfio cystadleuaeth ar gyfer siaradwyr newydd y llynedd ac wedi'r llwyddiant, dyma gynnwys cystadleuaeth eto eleni.

Cafwyd dipyn o sypreis eleni pan ddysgon nhw pwy oedd wedi ennill y gystadleuaeth. "'Nes i sylwi ar Delyth [Roberts] yn y gynulleidfa a gweld bod 'na ddyn yn eistedd wrth ei hochr hi, a do'n i erioed wedi gweld y dyn 'ma o'r blaen. "Ac yna ffeindio allan mai fo oedd wedi ennill a'i fod wedi dod yr holl ffordd o Sweden, oedd o'n hollol anhygoel, doeddan ni methu credu'r peth," ychwanegodd.

Mae Rik yn feistr ar ieithoedd, a Chymraeg yw ei ddeuddegfed iaith. Mae wedi darllen sawl nofel Gymraeg, mae wrth ei fodd yn gwrando ar Radio Cymru 2 a'i hoff raglenni ar S4C yw Rownd a Rownd a Sgwrs dan y Lloer.

Ysgrifennodd ddarn yn hel atgofion am ei ddiweddar gefnder yn ei gyflwyno i Gymru a'r iaith Gymraeg. Cafodd ei wahodd ganddo i fynd i gerdded yng ngogledd Cymru am y tro cyntaf yn 2011, ac mae'n ddyledus iddo am y cariad sydd ganddo at Gymru.

Fe ddaeth Rik i'r eisteddfod er mwyn cael blas o'r iaith a'i diwylliant, a heb yn wybod iddo, fe oedd wedi ennill y gystadleuaeth. Wedi iddo gael modd i fyw yng ngogledd Cymru, braf yw clywed fod Rik eisoes yn trefnu ei drip nesaf yma.

Llongyfarchiadau mawr iddo ar ei gamp. Tipyn o ysbrydoliaeth yn wir!

# Y TYMBL YN DATHLU 80

**Eleni, mae Eisteddfod Gadeiriol Y Tymbl yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ac yn amlwg, roedd yn rhaid nodi'r garreg filltir arbennig hon.**

Aethpwyd ati, felly, i drefnu te prynhawn yn Neuadd Bethesda Fach. Braf oedd gallu treulio prynhawn hwylus yn nghwmni ffrindiau'r eisteddfod yn cloncan ac yn hel atgofion. Rhoddwyd croeso arbennig i siaradwyr newydd a gwnaethant yn fawr o'r cyfle i sgwrsio yn y Gymraeg gan fwynhau bod yn rhan o ddigwyddiad cymunedol lleol, trwy'r Gymraeg. Roedd y te prynhawn, dan ofal Mandy Owen o'r Tymbl, yn flasus tu hwnt, yn tynnu dŵr i'r dannedd. Heb os, roedd yn wledd a hanner!



Diolch hefyd i Bethan Williams ac Erica Samuel am baratoi'r neuadd ar gyfer y te.

Tyfodd Eisteddfod Y Tymbl o'r eisteddfodau a gynhaliwyd gan gapeli'r pentref a threfnwyd yr eisteddfod gyntaf gan Bwyllgor Clwb Criced Y Tymbl a Phwyllgor Llesiant Y Tymbl Uchaf.

Nid mewn neuadd y cynhaliwyd yr eisteddfod gyntaf ond mewn pabell fawr ar gae oddi ar Heol Llety. Ond, profodd yr eisteddfod gyntaf honno i fod mor llwyddiannus bu'n rhaid cynnal yr eisteddfod y flwyddyn ganlynol yn neuadd y pentref, ac yno mae ei chartref ers hynny. Mae'r eisteddfod wedi newid dros y blynyddoedd, rhai cystadlaethau'n diflannu o'r rhaglenni ac eraill yn ymddangos. Eleni, gan fod yr eisteddfod yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed, rydym yn gyffrous o allu rhannu bod cystadlaethau newydd yn ymddangos yn y rhaglen, cystadleuaeth ysgrifennu sydd yn arbennig ar gyfer dysgwyr a hefyd cystadleuaeth Tlws Yr Ifanc. Llynedd collwyd un o hoelion wyth yr eisteddfod, Gwynfor Jones. Roedd Gwynfor wedi bod yn aelod gweithgar o bwyllgor 'Steddfod y Tymbl ers blynyddoedd maith. Gwynfor oedd yn gyfrifol am gadw trefn ar y llwyfan ar ddiwrnod yr eisteddfod ac ef oedd Ceidwad y Cledd yn seremoni'r cadeirio. Bydd y cystadleuydd mwyaf addawol y cystadlaethau lleol eleni yn cael cwpan a gwobr yn rhoddedig gan yr eisteddfod er cof am Gwynfor.

Er y newid sydd wedi bod ers yr eisteddfod gyntaf honno, yr un yw'r nod sef i hybu tyfiant yr iaith Gymraeg a'r diwylliant yn lleol a gobeithiwn barhau i gyflawni ein nod gan roi cyfle i blant ac oedolion i berfformio ar lwyfan am y bedair ugain mlynedd nesaf!

*Anwen Evans, Eisteddfod Y Tymbl*

# O 'STEDDFOD I 'STEDDFOD

## EISTEDDFOD GADEIRIOL CASTELLNEWYDD EMLYN



Unawd 16-19: 1af Alaw Evans, 2il Alwena Owen, 3ydd Celyn Evans



Llinos Dafydd - Bardd y Gadair

## EISTEDDFOD GADEIRIOL BONTNEWYDD



Enillydd y Gadair uwchradd - Nyfain Gwyn Prys o Ysgol Syr Hugh Owen.



Plant uwchradd, o ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Bodedern, fu'n cymryd rhan yn yr eisteddfod

## EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYDD Y GARREG



Cystadleuwyr ifanc yn mwynhau llwyddiant ym Mynydd y Garreg



## EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANUWCHLLYN



Unawdwyr llwyddiannus oed Derbyn



Her Unawd: 1af Richard Rees, 2il Arfon Griffiths, 3ydd Heidi Mason ac Elis Garmon

## EISTEDDFOD BRO LLANDEGFAN



Cystadleuaeth Unawd ar unrhyw offeryn cerdd ag eithrio'r piano Bl.6 ac iau



Enillydd Tlws yr Ifanc - Lea Mererid Roberts, Pwllheli

# EISTEDDFOD BRO ALED LLANSANNAN



Lea Mererid Roberts - enillydd cystadleuaeth arbennig 'Ysgrifennu dau ddarn o waith creadigol', 16-25 oed



Parti Adran Bro Aled a Cernyw - y parti cerdd dant agored

# EISTEDDFOD Y FENNI



Cystadlu brwd gan ddisgyblion uwchradd ac oedolion yn Y Fenni



# EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN CONWY LLANRWST



Gaenor Mai Jones, Pentref Eglwys, Rhondda Cynon Taf - Bardd y Gadair am y pedwerydd tro



Unawd Offerynnol Bl.10 i 25 oed:
1af Meilir Tudur Davies
2il Owain Preston

# EISTEDDFOD PONTYPRIDD





Dau o'r grwpiau yng nghystadleuaeth Brwydr y Bandiau

# EISTEDDFOD YR HEN GAPEL LLANBRYNMAIR



Y Brif Gystadleuaeth Lefaru:
1af Rhys Jones (canol), 2il Elain Iorwerth, 3ydd Ben Ridler



Cystadleuwyr llwyddiannus yn yr adran Celf

**LLONGYFARCHIADAU!**

**DIOLCH YN FAWR I'R HOLL FFOTOGRAFFWYR**

Mwy o luniau a chanlyniadau ar www.steddfota.cymru

EISTEDDFOD RHYS THOMAS JAMES LLANBEDR PONT STEFFAN

# Llais Llwyfan LLANBED

CYSTADLEUAETH GLASUROL I GANTORION DAN 30 OED

Ar Ddydd Sul, 7 Mehefin, yn festri Capel Brondeifi, Llanbedr Pont Steffan, cynhaliwyd rhagbrawf cystadleuaeth Llais Llwyfan Llanbed 2026.

Cafwyd gwledd o gystadlu eleni eto, a tipyn o dasg i'r ddau feirniad, Andrew Rees ac Iwan Teifion Davies. Yn gefn i'r cantorion gyda'i chyfeilio campus yn ôl yr arfer roedd Rhiannon Pritchard.

Llongyfarchiadau i'r 4 unawdydd isod fydd yn cystadlu am y gwobrau o £2000, £1000, £500 a £250, a hynny ar nos Sul 30 Awst. Dewch yn llu!



*Ffion Mair Thomas*



*Rachel Bedwin*



*Rhys Meilyr*



*Caitlin Hockley*

# CLOD I DENNIS

Hyfryd oedd gweld Dennis Davies, Llanrwst, yn derbyn Gwobr Gwasanaeth Gwirfoddol Arbennig, yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy ar ddiwedd mis Mehefin.

Gwobr newydd oedd hon, er cof am Esmor Owen, Garthmyn.

Mae Dennis wedi bod yn ymwneud â'r eisteddfod ers 50 o flynyddoedd, ynghŷd â'i ddiweddar wraig, Enid.

Nodwyd bod cyfraniad aruthrol Dennis wedi sicrhau fod yr eisteddfod yn parhau yn llwyddiannus, blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Llongyfarchiadau mawr i chi Dennis.



# CADAIR MYNYDD Y GARREG





Roedd hi'n bleser cyhoeddi yn Eisteddfod Gadeiriol Mynydd y Garreg eleni, mai enillydd y Gadair oedd Mark Ford o Bontarddulais.

Dyma'r tro cyntaf i Mark gystadlu mewn cystadleuaeth ysgrifennu. O ddydd i ddydd, mae'n bennaeth yn Ysgol Gynradd Meidrim. Wedi dathlu pen-blwydd arbennig eleni, penderfynodd nodi'r achlysur drwy roi cynnig ar gystadlu — ac fe ddaeth llwyddiant mawr ar ei ran.

Dywedodd ein beirniad Tudur Dylan Jones ei fod yn haeddu 'Y clod, y mawl, y parch a'r bri!'

*Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Mynydd y Garreg*


# SYNIAD AM 'STEDDFOD?



AWYDD SEFYDLU NEU ADFYWIO EISTEDDFOD LEOL?

YN YMWELD AG EISTEDDFOD GENEDLAETHOL Y GARREG LAS?

MAE CYMDEITHAS EISTEDDFODAU YMA I HELPU -
GALWA MEWN I'R STONDIN AM SGWRS!

WWW.STEDDFOTA.CYMRU

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

# Y DIWEDDARAF.....

Cafwyd wythnos lwyddiannus iawn yn Eisteddfod yr Urdd ym Môn gyda nifer yn galw heibio'r stondin am sgwrs ac i gasglu gwybodaeth.






Rhoddwyd cryn sylw i'r Gymdeithas yn y cyfryngau yn ystod, ac ar ôl yr eisteddfod, yn dilyn lansio Cynllun Mentora i bobl ifanc 18-25 ar y cyd gyda'r Urdd. Buom hefyd yn cydweithio gyda'r Urdd i hyrwyddo cyfleoedd sydd ar gael yn ein heisteddfodau lleol, gan rannu'r neges gyda holl aelodau'r Urdd. Hoffwn ddiolch hefyd i'r criw bach o wirfoddolwyr fu'n cynorthwyo Sian a Lois ar y stondin yn achlysurol yn ystod yr wythnos.

Rydym wedi parhau i ddatblygu a meithrin partneriaethau gyda mudiadau, cymdeithasau a chwmnïau ar hyd a lled Cymru gyda'r nod o ddatblygu a hyrwyddo ein heisteddfodau yn ganolbwynt i bopeth.

Cafwyd cyfarfod Seiat Steddfota ar-lein llwyddiannus iawn; bu'n gyfle i aelodau o bwyllgorau eisteddfodau lleol rannu profiadau, cynnig cefnogaeth a lleisio barn am y gefnogaeth mae'r Gymdeithas yn ei gynnig. Bydd cyfarfodydd Seiat byw yn y Gogledd, Canolbarth a'r De yn cael eu cynnal yn ystod yr Hydref.

Ynghŷd â'r gwaith arferol o gefnogi eisteddfodau rydym hefyd wedi bod yn cefnogi sawl pwyllgor newydd i sefydlu neu adfywio eisteddfodau lleol. Bydd rhain yn ymuno yn y calendr eisteddfodau yn 2027.

Mae'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn boblogaidd iawn dros y misoedd diwethaf gyda chynnydd o 146.5% yng nghyrhaeddiad ein cynnwys. Gobeithiwn y bydd hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth, cefnogaeth a chystadlu yn ein heisteddfodau

Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu pawb i'n stondin a'n amrywiol weithgareddau yn Eisteddfod Y Garreg Las, Llantwd.




# CYNLLUN MENTORA

Fel y soniwyd, mae Eisteddfod yr Urdd a Chymdeithas Eisteddfodau Cymru yn cydweithio ar gynllun mentora newydd i feithrin arweinwyr, beirniaid a hyfforddwyr y dyfodol.

Yn dilyn y diwrnod o hyfforddiant gydag Anni Llŷn, Huw Foulkes a Gavin Ashcroft, bydd y criw ifanc yn bwrw eu prentisiaeth mewn eisteddfodau lleol o amgylch Cymru, cyn symud ymlaen i gysgodi arweinydd, beirniaid neu hyfforddwr profiadol yn Eisteddfodau Cylch yr Urdd.

Mae'r dyddiad cau yn prysur agosáu, felly os wyddoch chi am unrhyw berson ifanc 18-25 oed fyddai â diddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch gyda sian@steddfota.cymru cyn gynted â phosib!




**Sian Evans (Swyddog Datblygu)**
sian@steddfota.cymru
07795164911





**Lois Williams (Swyddog Cyfathrebu)**
lois@steddfota.cymru
01570 423700 / 07717842556


CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

# EISTEDDFODAU 2026-2027

CEFNOGWCH EICH 'STEDDFOD LEOL!

**Gweler ddyddiadau eisteddfodau'r misoedd i ddod, gyda digon o ddewis i 'steddfotwyr brwd!**
**Mae'n debygol nad yw'r rhestr hon yn gyflawn, felly cofiwch bod y rhestr ar www.steddfota.cymru yn cael ei diweddaru wrth i ni dderbyn unrhyw wybodaeth am ddyddiadau. Bydd y rhestrau testunau ar gael i'w lawrlwytho yn ogystal, unwaith y byddwn wedi'u derbyn gan eisteddfodau.**
**Gofynnwn yn garedig, felly, i bwyllgorau gysylltu cyn gynted â byddwch wedi sefydlu dyddiad eich eisteddfod.**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 Awst | Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las | www.eisteddfod.cymru | | |
| 28-31 Awst | Eisteddfod Rhys Thomas James Llanbedr P.S | Dorian Jones | doriancop@icloud.com | 07814 440581 |
| 19 Medi | Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth | Mair Davies | mairdavies10@gmail.com | 01970 890245 |
| 19 Medi | Eisteddfod Gadeiriol y Tymbl | Anwen Evans | anwenevans@live.co.uk | 01269 833568 |
| 26 Medi | Eisteddfod Gadeiriol Penbre a Phorth Tywyn | Matthew Tucker | eisteddfodppt@gmail.com | 07538760786 |
| 26 Medi | Eisteddfod Gadeiriol Llanwrtyd | Susan Price | iwan_wyn_price@hotmail.com | 01591 610303 |
| 9 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Llanarth | Catrin Bellamy Jones | catrinbj1@gmail.com | 01545 580279 |
| 10 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen | Davinia Davies | daviniaharries@hotmail.com | 07879692347 |
| 10 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Treuddyn | Bethan Jones | eisteddfodgadeirioltreuddyn@gmail.com | |
| 17 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Trefeglwys | Margaret Jones | margaretjones@pc-q.net | 01686430474 |
| 17 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Felinfach | Meinir Lewis | euros@mailsaq.net | 01570 470050 |
| 31 Hydref | Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint | Tina Morris | tina.morris@lasrecycling.com | 07816 602981 |
| 14 Tach. | Gŵyl Cerdd Dant Caernarfon | www.cerdd-dant.org | | |
| 14 Tach. | Eisteddfod y Rhondda | Lisa Sheppard-Thomas/Seren Hâf MacMillan | EisteddfodYRhondda@gmail.com | 07792 175033 |
| 20-21 Tach | Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen | Lowri Watcyn Roberts | l.roberts11@btinternet.com | 07815 093955 |
| 28 Tach. | Eisteddfod Gadeiriol Aelhaearn | Mary C. Jones | mary.jones17@btinternet.com | 01286 660768<br>07879825459 |
| 2027 | | | | |
| 16 Ionawr | Eisteddfod Nefyn | Nia Midwood | eisteddfodgadeiriolnefyn@gmail.com | |
| 23 Ionawr | Eisteddfod Gadeiriol Chwilog | Gwyn Parry Williams | gwynarhian@btinternet.com | 01766 810717 |
| 30 Ionawr | Eisteddfod Garndolbenmaen | Esyllt Williams | esylltport@yahoo.com | |
| 6 Chwefror | Eisteddfod Gadeiriol Y Felinheli | Elen Gwenllïan | eisteddfodfelinheli@gmail.com | |
| 6 Chwefror | Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog | Kim Lloyd Jones<br>Geraint Roberts (llên) | kimlloydjones@icloud.com<br>geraintroberts@btinternet.com | |
| 19 Chwefror | Eisteddfod Gadeiriol Mynydd y Garreg | Christine Evans | christineevans2@icloud.com | 07811052017 |
| 26 Chwefror | Eisteddfod Gadeiriol Swyddffynnon | Annwen Isaac | annwen.isaac@btinternet.com | 01974 831668 |
| 27 Chwefror | Eisteddfod Gadeiriol Crymych | Ann Siriol Davies<br>Awen Evans | ann_capel@yahoo.co.uk<br>alwyn.evans@btconnect.com | 01994 419268<br>01239 891637 |
| 19-20 Mawrth | Eisteddfod Gadeiriol Tregaron | Eirwen James | eirwen.tymawr@live.co.uk | |
| 10 Ebrill | Eisteddfod Gadeiriol Mynytho | Dilwyn Thomas | dilwyn465@btinternet.com | 07979733123 |